




SENEDD!



# **Polisiâu sy'n Darfod yn 20/21**

**Senedd**

**2/11/2019**



## Campws Cysylltiedig Ar-lein

Wifi - Am ddim - ym mhobman\*\* (Yn Aberystwyth)

---

### Manylion:

Wrth i'r byd fynd yn fwyfwy ar-lein, credaf y dylai'r brifysgol yn gyntaf edrych ar gynyddu cyflymder lawrlwytho ar Eduroam a bod â chysylltedd ar-lein cyflawn ar draws yr holl gampws. Efallai pwyntiau wifi ym mhob polyn lamp. Ble bynnag y byddwch chi'n cerdded ar y campws, dylech fod yn gallu mynd ar-lein, gyda mynediad di-dâl i'r rhynggrwyd mai Eduroam yn ei roi i gorff y myfyrwyr.

Gan symud hyn ymlaen yn y dyfodol, dylid yn gyntaf sicrhau bod cysylltedd wifi llawn ar gael yn holl lety'r brifysgol ac ym mhob rhan o'r campws. Gan bod tref Aberystwyth yn fach a bod iddi gysylltiadau clòs â'r brifysgol, dylai'r brifysgol ystyried gwella ei petherthynas â'r dref a cheisio sefydlu cysylltedd gyflawn o fewn y dref; dylai weithio'n fwy clòs â Chyngor Sir Ceredigion ar y mater hwn.

---

**Statws:** Rydym yn gweithio arno

**Swyddog Gyfrifol:** Llywydd yr Undeb

**Cyflwynwyd Gan:** Bruce Fraser Wight

**Pasiwyd:** 03/10/2017, Senedd

**Dyddiad Darfod:** 03/10/2020

### Gweithredu:

Mae'r Llywydd wedi cyfarfod yn rheolaidd â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth (GG) sydd wedi cadarnhau bod cynllun buddsoddi mewn lle ar gyfer uwchraddio ein rhwydwaith a'n seilwaith TG. Mae cronfa o arian wedi bod yn tyfu mewn gwerth yn raddol, ac mae wedi'i neilltuo ar gyfer uwchraddio ein rhwydwaith TG yn benodol.

Ffocws y polisi hwn yw uwchraddio cysylltedd y rhwydwaith rhynggrwyd ar y campws ac yn llety'r brifysgol, sicrhau gwell dibynadwyedd, cynyddu cyflymder a chyrhaeddiad. Mae trafodaethau wedi datgelu amryw o opsiynau ar gyfer sut y gellid cyflawni hyn, er enghraifft, gellid defnyddio opteg ffibr mewn modd a fyddai'n dod â chyflymder Gigabit ar y campws.

Bydd union fanylion sut olwg fyddai ar uwchraddio'n rhwydwaith yn amrywio



# SENEDD!

oherwydd graddfa a chymhlethdod rhwydwaith TG y Brifysgol, a bydd y GG yn delio â'r manylion hynny wrth uwchraddio. Nid yw'r Brifysgol wedi gosod dyddiad eto ar gyfer cyflwyno uwchraddiad o'r math hwn a'r cam nesaf yw i'r Llywydd olrhain unrhyw gynnydd.





## ERASMUS ar ôl Brexit

Dylai UMABer lobio ar bob lefel i'r DU barhau i gael mynediad i ERASMUS ar gyfer holl fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, a dylai fod yn weithredol ym mhob ymgyrch genedlaethol a gynhelir gan UCM (Cymru/DU) parthed ERASMUS. Dylai UMABer geisio sicrwydd rheolaidd gan Brifysgol Aberystwyth ynglŷn â'u gweithgareddau lobio o amgylch ERASMUS (a Brexit yn gyffredinol).

---

### Manylion:

Y ffeithiau:

1. Pleidleisiodd y DU o 52% i 48% i adael yr Undeb Ewropeaidd.
2. Mae'n aneglur ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU beth yw eu hamcanion o'r cyddrafodaethau ar adael.
3. Mae hefyd yn aneglur pa bryd yn union y caiff Erthygl 50 ei chychwyn.
4. Yn sgil y Refferendwm, ceisiodd Prifysgol Aberystwyth dawelu meddwl ymgeiswyr o'r UE y byddai Prifysgol Aberystwyth yn parhau i fod yn sefydliad agored i ymgeiswyr.
5. Mae gan Brifysgol Aberystwyth adran Ieithoedd Modern sy'n gofyn i fyfyrwyr dreulio blwyddyn dramor, ac mae llawer ohonyn nhw'n ymgymryd ag ERASMUS.
6. Ers y Refferendwm, mae'n aneglur a fydd ERASMUS yn parhau.

Barn y Bobl:

1. Mae ERASMUS yn gynllun gwerthfawr iawn i fyfyrwyr sy'n astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth.
2. Dylid gwneud pob ymdrech i lobio (ar bob lefel) er mwyn cynnal mynediad i ERASMUS ar gyfer myfyrwyr oll.
3. Mae Prifysgol Aberystwyth yn elwa o natur ddwyochrog ERASMUS oherwydd daw myfyrwyr o'r UE yma i astudio'n ogystal.
4. Gwelir Aberystwyth fel lle croesawus i ddod i fyw ac astudio ynddo, a dylai hyn barhau.

Y Datrysiad:

1. Dylai UMABer lobio ar bob lefel er mwyn i'r DU barhau i gael mynediad i ERASMUS ar gyfer myfyrwyr AU.
  2. Dylai UMABer chwarae rhan weithredol mewn unrhyw ymgyrchoedd cenedlaethol a gaiff eu rhedeg gan UCM (Cymru/DU) parthed ERASMUS.
  3. Dylai UMABer geisio sicrwydd rheolaidd gan Brifysgol Aberystwyth ynglŷn â'u gweithgareddau lobio o amgylch ERASMUS (a Brexit yn gyffredinol).
-



**Statws:** We are Working on it

**Swyddog Gyfrifol:** Swyddog Materion Academaidd

**Cyflwynwyd Gan:** Lauren Marks

**Pasiwyd:** 27/02/2017, Senedd

**Dyddiad Darfod:** 01/02/2020

**Gweithredu:**

Mae'r Swyddog Materion Academaidd wedi sicrhau bod effaith Brexit ar fyfyrwyr yn cael blaenoriaeth mewn unrhyw drafodaethau, ac y bydd hynny'n parhau.

Cyn i'r DU ymadael â'r UE ar 31ain Ionawr, lansiodd yr ymgyrch 'Blwch-post Porffor' gan UMAber, gan annog myfyrwyr, staff ac aelodau o'r gymuned ehangach i lobio eu AS lleol er mwyn diogelu ERASMUS+ ar ôl Brexit. Fel rhan o'r ymgyrch, anfonwyd dros 500 o gardiau-post at bron i 200 o ASau ledled y DU gan dynnu sylw at bwysigrwydd mynediad parhaus at ERASMUS+. Gellir gweld dadansoddiad o'r cardiau-post a anfonwyd ar dudalen ymgyrchoedd gwefan UMAber. Ers hynny mae'r ymgyrch wedi'i chydabod yn genedlaethol am ei llwyddiant a'i hallgymorth, gan dderbyn 'Gwobr Addysg' UCM Cymru (UCMC) fel yr ymgyrch orau yn seiliedig ar addysg i ddod o Undeb Myfyrwyr Cymru yn 2019/20.

Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r AS lleol Ben Lake ar y fenter hon, sydd wedi dangos cefnogaeth aruthrol i'r ymgyrch. Ym mis Hydref, ymwelodd Ben ag UMAber ynghyd â Llywydd UCM Cymru ar y pryd Rob Simkins, i fynychu trafodaeth banel am bwysigrwydd ERASMUS+ a'r hyn y gallwn ei wneud i amlygu pryderon ynghylch y posibilrwydd o golli ERASMUS+. Mae Ben hefyd wedi dangos diddordeb brwd mewn darparu diweddariadau cyson a pherthnasol i'r UM ar safiad a chynnydd San Steffan o ran ERASMUS+ sy'n hanfodol i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hysbysu am y mater hwn.

Mae'r Swyddog Materion Academaidd, drwy rwydweithio a lobio allanol, hefyd wedi cael cyfle i gwrdd â rhanddeiliaid allweddol yng ngwleidyddiaeth Ewrop. Ym mis Ionawr 2020, cafodd wahoddiad gan gyn-ASE y Democratiaid Rhyddfrydol Louisa Porritt i ymweld â Senedd Ewrop ym Mrwsel. Ar y daith hon, cyfarfu â grŵp o ymgyrchwyr ifanc o bob rhan o'r DU i rannu syniadau ar fentrau cyfredol a dysgu am yr effaith y bydd Brexit yn ei chael ar fyfyrwyr yn y blynyddoedd i ddod. Ymwelwyd â'r parliamentarium, cawsom ein tywys o amgylch adeiladau'r siambr a'r swyddfeydd, a mynychwyd cinio Holi ac Ateb preifat gyda Louisa ei hun i ofyn y cwestiynau pwysig am ERASMUS+ ac effeithiau ehangach Brexit.

Mae'r Swyddog Materion Academaidd hefyd wedi gweithio gydag UCM Cymru ar eu mentrau ar gyfer amddiffyn ERASMUS+. Yn ddiweddar, mae UCMC wedi lansio eu hymgyrch #ArbedErasmus, sy'n parhau ac yn cael ei chefnogi gan UMAber.



# SENEDD!

Oherwydd y coronafeirws, amharwyd i raddau helaeth ar lobïo gweithredol i amddiffyn ERASMUS. Fodd bynnag, mae heriau newydd wedi codi o ran sicrwydd lleoliadau astudio rhyngwladol, a bydd y Swyddog Materion Academaidd yn parhau i flaenoriaethu bod gan fyfyrwyr fynediad diogel i addysg dramor.





## Dwi eisiau campfa ar y penwythnosau

Mae 1 ac 1 yn ddwy; mae angen oriau campfa hwy!

---

### **Manylion:**

Mae'r Ganolfan Chwaraeon yn agored am oriau byrrach ar benwythnosau. Pe bai'r Ganolfan Chwaraeon ar agor am fwy o oriau ar benwythnosau, byddai'n gwella mynediad i fyfyrwyr ac yn darparu mwy o gyfleoedd i glybiau chwaraeon ymarfer.

Dylai UMAber annog y Ganolfan Chwaraeon i newid ei oriau agor ar benwythnosau i fod yr un fath â dyddiau eraill yr wythnos, gan ddarparu gwasanaeth cyson dros 7 diwrnod.

---

**Statws:** Rydym yn gweithio arno

**Swyddog Gyfrifol:** Swyddog Cyfleoedd

**Cyflwynwyd Gan:** Bruce Fraser Wight

**Pasiwyd:** 26/02/2018, Senedd

**Dyddiad Darfod:** 26/02/2021

### **Gweithredu:**

Mae'r Swyddog Cyfleoedd mewn cydweithrediad â'r Llywydd wedi cyfarfod ar sawl achlysur gyda Phennaeth Gwasanaethau Masnachol a Rheolwr y Ganolfan Chwaraeon i drafod y polisi, gan gytuno na ellir ei weithredu yn ei ffurf bresennol.

Fodd bynnag, gyda gwaith adnewyddu ar y gweill ar gyfer Y Sgubor ger preswylfeydd yn Fferm Penglais a Phentre Jane Morgan, mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn ystyried creu ardal ffitrwydd â mynediad agored a fyddai ar gael i fyfyrwyr ar unrhyw amser. Mae'n ymddangos y byddai hyn yn ddewis amgen ymarferol i'r polisi a gyflwynwyd.



## Cerddoriaeth Gymreig yn yr Undeb

Bwriad y polisi hwn yw cyflwyno cerddoriaeth Gymreig drwy Undeb y Myfyrwyr, gan sicrhau bod diwylliant Cymru'n cael ei arddangos a'i hyrwyddo i fyfyrwyr.

---

### Manylion:

Bwriad y polisi hwn yw cyflwyno cerddoriaeth Gymreig drwy Undeb y Myfyrwyr, gan sicrhau bod diwylliant Cymru'n cael ei arddangos a'i hyrwyddo i fyfyrwyr. Mae'r system gerddoriaeth bresennol, 'SubTV', yn caniatáu i fyfyrwyr ddewis o blith llyfrgell rhagosodedig sydd ond ag ychydig o gerddoriaeth Gymreig (os oes o gwbl).

Dylai UMAber weithio gyda'r Brifysgol i adolygu'r system bresennol ac ystyried ymarferoldeb chwarae cerddoriaeth Gymreig ar amser penodol bob wythnos ym manau masnachol Undeb y Myfyrwyr (e.e. dydd Mawrth 4-6pm) yn ogystal â chynnwys cerddoriaeth Gymreig fel rhan o'r gerddoriaeth gyffredinol a ddefnyddir yn y manau hyn.

---

**Statws:** Rydym yn gweithio arno

**Swyddog Gyfrifol:** Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA

**Cyflwynwyd Gan:** Gwion Llwyd

**Pasiwyd:** 26/02/2018

**Dyddiad Darfod:** 26/02/2021

### Gweithredu:

Ar hyn o bryd mae 5 o ganeuon Cymraeg ar y system SubTV a chwaraeir yn y Cwtch yn Adeilad Undeb y Myfyrwyr.

Defnyddir SubTV mewn undebau ledled y DU ac maent yn gweithio gyda labeli recordiau i gael yr hawl i ddefnyddio caneuon gan eu hartistiaid. Gall hyn fod yn broses hir, er eu bod yn gweithio gyda labeli recordiau Cymraeg i gael yr hawl i ddefnyddio caneuon eu hartistiaid.

Ar hyn o bryd rydym yn aros am y diweddaraf gan SubTV ond bydd y Swyddog Diwylliant Cymreig ac UMCA yn parhau â thrafodaethau pellach yn y misoedd i ddod.